Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2025-2027 (drafft)

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd gan** | I’w Gadarnhau |
| **Dyddiad gweithredu** | I’w Gadarnhau |
| **Perchennog** | Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu Corfforaethol |
| **Dyddiad adolygu** | Mehefin 2027 |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2025-2027 (drafft)

## Newidiadau i'r ddogfen hon

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n rheolaidd i gyd-fynd â newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir eich bod yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf ar y wefan ac unrhyw ganllawiau perthnasol.

| **Fersiwn** | **Dyddiad cymeradwyo** | **Cymeradwywyd gan** | **Nodiadau / newidiadau** |
|---|---|---|---|
| 1.0 | | | |
| 2.0 | | | |

# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2025-2027 (drafft)

## Cynnwys


Newidiadau i’r ddogfen hon 2

Cynnwys 3

Pwrpas y strategaeth hon 4

Cefndir Deddfwriaethol 4

Gofynion a chanfyddiadau allweddol ymgynghoriad 5

Nodau ein hymagweddau allweddol 7

Cydymffurfiaeth â’r ddeddf 8

# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2025-2027 (drafft)

## Pwrpas y strategaeth hon

Pwrpas Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yw nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu annog pobl leol i gyfranogi wrth i'r Cyngor wneud penderfyniadau.

Mae'n ategu at y Polisi Ymgysylltu cyfredol sy'n cynnig arweiniad a chefnogaeth i swyddogion a Chynghorwyr wrth ymgymryd ag ystod o weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd.

### Cefndir Deddfwriaethol

Mae *Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021* (y cyfeirir ati fel Y Ddeddf wedi hyn) yn ei gwneud yn ofynnol bod prif Gynghorau (y mae Cyngor Sir Ddinbych yn un o'r Cynghorau hynny) yng Nghymru yn datblygu a gweithredu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd sy'n mynd i'r afael â:

- Ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o swyddogaethau'r prif Gyngor;
- Ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o sut i ddod yn aelod o'r prif Gyngor, a beth mae aelodaeth yn ei olygu;
- Ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth ynglŷn â phenderfyniadau a wnaed, neu i'w gwneud, gan y prif Gyngor;
- Ffyrdd o hyrwyddo a hwyluso prosesau i bobl leol allu cyflwyno sylwadau i'r prif Gyngor am benderfyniad cyn ac ar ôl iddo gael ei wneud;
- Trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, ar gyfer dyletswydd y Cyngor yn adran 62 ym Mesur 2011 (dod â barn y cyhoedd i sylw Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu);
- Ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg aelodau'r prif Gyngor o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

Mae gofyn i brif Gynghorau ymgynghori â'r gymuned leol i ddatblygu ac adolygu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. Mae'n rhaid adolygu'r strategaeth hon o leiaf unwaith ar ôl pob etholiad llywodraeth leol arferol.

# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2025-2027 (drafft)

## Gofynion a chanfyddiadau allweddol ymgynghoriad

Mae'r Ddeddf yn nodi (adran 41.2) *"Wrth lunio'r strategaeth honno rhaid i'r cyngor ymgynghori â phobl leol, ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ei ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy".*

I gefnogi datblygiad y strategaeth hon, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnal ymchwil dros ddau brosiect ar wahân:

1. Cyn cyflwyno'r Ddeddf, roedd gwaith eisoes ar y gweill gan Gyngor Sir Ddinbych o dan brosiect o Gynllun Corfforaethol 2017-2022. Enw'r prosiect oedd *Mae pobl wedi'u cynnwys wrth siapio a gwella gwasanaethau.* Roedd y prosiect yn ceisio gwella a mynd i'r afael â phryderon allweddol a godwyd mewn Arolygon Preswylwyr blaenorol lle bo ymatebwyr yn teimlo ei bod yn anodd cymryd rhan mewn prosesau llunio penderfyniadau'r Cyngor, a hyd yn oed pe baent yn cyfranogi, nid oeddent yn siŵr a fyddai eu cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth. Nod terfynol prosiect *Mae pobl wedi'u cynnwys…* oedd datblygu Polisi Ymgysylltu ar gyfer y Cyngor a fyddai'n arwain syniadau swyddogion wrth greu a rheoli prosiectau ymgysylltu ac ymgynghori, a dod â thryloywder a chysondeb i weithgareddau ymgysylltu sy'n cael eu cynnal ar draws y Cyngor. Cynhaliwyd ymchwil dros dair blynedd i nodi gofynion cyson wrth ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

2. Yn dilyn cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2021, a'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad i gefnogi datblygiad Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, cynhaliwyd ymchwil ychwanegol i fynd i'r afael â'r 'bylchau gwybodaeth' sy'n ofynnol o dan y Ddeddf nad oeddent wedi'u cynnwys yn y gwaith a wnaed ar y Polisi Ymgysylltu, megis y gofyniad i godi ymwybyddiaeth ar sut i ddod yn Gynghorydd.

Penodwyd ymchwilwyr allanol i gyflawni'r ymchwil ar gyfer y ddau ddarn o waith ac roedd yn cynnwys archwiliad annibynnol o weithgareddau presennol y Cyngor, arolwg ar-lein, a rhai arolygon stryd lle byddai ymchwilwyr yn mynd at aelodau'r cyhoedd i ofyn iddynt am eu safbwyntiau. O ran arolygon, derbyniodd y ddau ddarn o ymchwil gyfanswm o 1,215 o ymatebion, ac roedd oddeutu 750 ohonynt wedi'u cynnal fel 'arolygon stryd' (dylid nodi fodd bynnag oherwydd pandemig Covid cynhaliwyd blwyddyn o arolygon ar-lein yn unig).

# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2025-2027 (drafft)

I grynhoi roedd data o'r ddau ddarn o ymchwil yn dangos:

1. Ar gyfartaledd, roedd oddeutu 75% o ymatebwyr yr arolwg eisiau cyfranogi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
2. Ar gyfartaledd, roedd oddeutu 73% o'r ymatebwyr yn teimlo bod 'ymgysylltiad ystyrlon' yn golygu eu bod yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys, yn derbyn gwybodaeth ac yn cael llais (hyd yn oed os nad oedd y penderfyniad terfynol yn un yr oeddent yn cytuno ag ef). Roedd oddeutu 19% o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai ymgysylltiad yn ystyrlon pe bai'r Cyngor yn gwneud penderfyniad yr oeddent yn cytuno ag ef yn bersonol. Roedd oddeutu 8% o'r ymatebwyr yn ansicr neu heb farn ar y mater.
3. Mae mwy o wybodaeth o ran beth mae'r Cyngor yn ei wneud a sut mae'n effeithio ar fywydau pobl yn ne'r Sir. Mae'n debyg bod hyn oherwydd bod cymunedau yn ardaloedd gwledig Sir Ddinbych yn llai yn gyffredinol ac felly mae'r penderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud yn cael effaith ehangach ar y gymuned honno.
4. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn nifer yr ymatebwyr a oedd yn nodi eu bod wedi mynychu cyfarfod pwyllgor y Cyngor (neu'n gwybod bod modd gwneud hynny). Yng Nghorwen, roedd dros 50% o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod naill ai wedi mynychu cyfarfod neu'n gwybod bod modd gwneud hynny, o gymharu â'r Rhyl lle roedd 27% o'r ymatebwyr naill ai wedi mynychu cyfarfod neu'n gwybod bod modd gwneud hynny.
5. Nid oedd gan yr ymatebwyr ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn penderfyniadau i'r graddau y byddent yn ystyried bod yn Gynghorydd yn gyffredinol. Ar draws y sir roedd llai na 1 mewn 10 o bobl yn credu y byddai hyn yn rhywbeth yr hoffent ei wneud.
6. Roedd y rhesymau pam yr oedd pobl yn teimlo na fyddent yn ystyried bod yn Gynghorydd yn cynnwys: yn ansicr beth y byddai hynny'n ei olygu, dim ymgyrch / ansicr a fyddai pobl yn pleidleisio drostynt, roeddent yn rhy brysur, yn rhy hen, neu'n ansicr o ran lefel yr ymrwymiad a fyddai'n ofynnol, neu nad oedd y tâl yn gymesur â chyfrifoldebau bod yn Gynghorydd.
7. O ran y dulliau er mwyn i'r ymatebwyr ddysgu mwy neu gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt:
    a. Roedd oddeutu 43% eisiau i'r Cyngor ysgrifennu atynt

b. Roedd oddeutu 30% yn dymuno mynychu sesiwn wybodaeth gyhoeddus neu gyfarfod cyhoeddus
c. Roedd oddeutu 42% yn dymuno gweld rhywbeth ar y cyfryngau cymdeithasol
d. Roedd oddeutu 29% yn dymuno gweld rhywbeth ar wefan y Cyngor

8. Y peth pwysig o ran cysylltu â phobl yw 'cwrdd â phobl lle mae'n nhw' - llythyrau (naill ai e-bost neu drwy'r post) fel modd o gyswllt uniongyrchol yw'r dull mwyaf personol ac effeithiol o gysylltu â phobl mae'n debyg. Dylai bod cyfarfodydd cyhoeddus neu sesiynau gwybodaeth yn cael eu cynnal mor agos at y gymuned darged â phosibl, yn hytrach na (er enghraifft) disgwyl i bobl ymweld â swyddfa'r Cyngor neu amwynder arall er mwyn mynychu. Er mwyn sicrhau bod y dulliau hyn yn effeithiol, bydd angen i swyddogion y Cyngor feddu ar lefelau uchel o hyder, cyn dechrau prosiect, eu bod wedi mapio eu grwpiau budd-ddeiliaid yn gywir a digonol ac yn hyderus eu bod yn cysylltu â nhw yn y modd mwyaf priodol.
9. Mae nifer sylweddol o'r ymatebwyr ar y cyfryngau cymdeithasol a hoffent ei weld yn cael ei ddefnyddio'n well fel dull cyfathrebu na'r hyn a wneir ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen ymchwil pellach i brofi mecanweithiau gwahanol ar gyfryngau cymdeithasol (er enghraifft, cyfranogiad mewn grwpiau / gofodau cymunedol lleol ar gyfryngau cymdeithasol, neu hysbysebu am ffi, neu negeseuon safonol ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor).

## Nodau ein hymagweddau allweddol

Bydd y nodau canlynol yn egluro sut yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael â phob gofyniad yn y strategaeth.

### Cysondeb

Bydd ein hymagwedd i gynnwys pobl leol ym mhenderfyniadau'r Cyngor yn gyson.

### Tryloywder

Bydd ein hymagwedd i gynnwys pobl leol ym mhenderfyniadau'r Cyngor yn dryloyw, a bydd pobl yn deall pam y byddwn yn defnyddio ymagwedd benodol.

# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2025-2027 (drafft)

**Tegwch**

Byddwn yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng ‘cydraddoldeb’ a ‘thegwch’ a gweithio i sicrhau nad yw unrhyw un sy’n dymuno cyfrannu at benderfyniadau’r Cyngor yn cael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd eu hamgylchiadau penodol.  Pan fydd hyn yn golygu fod rhai pobl angen mwy o gefnogaeth i gyfranogi ym mhenderfyniadau’r Cyngor, byddwn yn gwneud ein gorau i alluogi hyn lle bo modd.

## Cydymffurfiaeth â’r ddeddf

Bydd yr adran hon yn nodi beth mae’r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd, ble y gellir nodi gwelliannau, sut yr ydym yn bwriadu cyflawni’r gwelliannau hyn.

**Ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o swyddogaethau’r prif Gyngor**

Mae ymagwedd bresennol Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys:

- Gwefan y Cyngor
- Datganiadau i’r Wasg
- Cyfryngau cymdeithasol fel Twitter a Facebook.

Er mwyn gwella hyn, bydd y Cyngor yn ystyried:

- Pobl sydd wedi’u heithrio’n ddigidol
- Pobl sy’n defnyddio cyfryngau cymdeithasol eraill heblaw Twitter a Facebook
- Cefnogi Cynghorwyr lleol i gymryd rôl weithgar yn hyrwyddo eu gwaith eu hunain

# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2025-2027 (drafft)

**Ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o sut i ddod yn aelod o'r prif Gyngor, a beth mae aelodaeth yn ei olygu**

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych dudalen we o'r enw 'Byddwch yn Gynghorydd":

https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/pleidleisio-ac-etholiadau/byddwch-yn-gynghorydd.aspx

Cyn cyfnod etholiad, mae'r dudalen hon yn cael ei hyrwyddo drwy ddatganiad i'r wasg (a allai gael ei ddefnyddio gan y wasg leol) ac ar gyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter

Er mwyn gwella hyn, bydd y Cyngor yn:

- Gofyn i bobl yn rheolaidd sut yr hoffent dderbyn gwybodaeth - mae hyn yn eitem sefydlog fel rhan o Bolisi Ymgysylltu'r Cyngor.
- Sicrhau bod y wybodaeth ar gael mewn print neu fformat arall ar gyfer pobl sy'n cael eu heithrio'n ddigidol
- Parhau i ymchwilio'r ffyrdd gorau o gysylltu â phobl, gydag ystyriaethau penodol i unrhyw amgylchiadau a allai rwystro ymgysylltiad

**Ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth ynglŷn â phenderfyniadau a wnaed, neu i'w gwneud, gan y prif Gyngor**

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor Bolisi Ymgysylltu, sy'n nodi bod yn rhaid i bobl allu derbyn gwybodaeth:

- Ar-lein drwy unrhyw un o'r canlynol neu bob un ohonynt:
  - Prif wefan y Cyngor
  - Porth Cynllunio
  - Drwy sesiynau galw heibio neu gyfarfodydd cyhoeddus ar-lein (ar Microsoft Teams ar hyn o bryd)
- All-lein drwy unrhyw un o'r canlynol neu bob un ohonynt:
  - Gwybodaeth ar gael mewn llyfrgelloedd lleol
  - Gwybodaeth ar gael yn y wasg leol naill ai drwy ddatganiad i'r wasg, hysbyseb neu rybudd cyhoeddus

  - Lle bo'n briodol, drwy sesiynau gwybodaeth cyhoeddus (galw heibio neu gyfarfod)
  - Lle bo'n briodol, drwy bostio llythyrau i'r rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau, neu drwy gnocio drysau.

Er mwyn gwella hyn, bydd y Cyngor yn:

- Gofyn i bobl leol yn rheolaidd a yw'r dulliau o ddarparu gwybodaeth iddynt yn rhai cywir
- Adolygu ein Polisi Ymgysylltu'n rheolaidd yn unol â'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym

**Ffyrdd o hyrwyddo a hwyluso prosesau i bobl leol allu cyflwyno sylwadau i'r prif Gyngor am benderfyniad cyn ac ar ôl iddo gael ei wneud**

Mae gan y Cyngor Bolisi Ymgysylltu sy'n nodi, lle bo'n briodol, mae'n rhaid i bobl allu cymryd rhan mewn proses o wneud penderfyniadau lleol (o leiaf) yn y ffyrdd canlynol:

- Ar-lein drwy unrhyw un o'r canlynol neu bob un ohonynt:
  - Prif wefan y Cyngor (yn benodol https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/ymgynghoriadau/ymgynghoriadau.aspx ar gyfer ymgynghoriadau a gweithgareddau ymgysylltu)
  - Porth Cynllunio
  - Drwy sesiynau galw heibio neu gyfarfodydd cyhoeddus ar-lein (ar Microsoft Teams ar hyn o bryd)
- All-lein drwy unrhyw un o'r canlynol neu bob un ohonynt:
  - Drwy weld dogfennau ymgynghori neu ymgysylltu a llenwi ffurflenni adborth mewn llyfrgelloedd lleol neu leoliadau eraill fel bo'r angen
  - Lle bo'n briodol, drwy ymgysylltiad cyhoeddus neu sesiynau galw heibio i ymgynghori
  - Lle bo'n briodol, drwy hwyluso trafodaethau gyda chymunedau penodol neu ddefnyddwyr gwasanaeth (e.e. grwpiau ffocws)

Er mwyn gwella hyn, bydd y Cyngor yn:

- Gofyn i bobl leol yn rheolaidd ai'r sianeli ymgysylltu yr ydym yn eu defnyddio i ymgysylltu â nhw ac i hwyluso eu cyfranogiad yw'r rhai cywir
- Adolygu ein Polisi Ymgysylltu'n rheolaidd yn unol â'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym

**Trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, ar gyfer dyletswydd y Cyngor yn adran 62 ym Mesur 2011 (dod â barn y cyhoedd i sylw Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu)**

Mae gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i gyflwyno safbwyntiau'r cyhoedd i'r tri Phwyllgor Craffu.

Gall aelodau'r cyhoedd gysylltu â'u cynghorydd lleol, i godi materion drwy eu Cynghorydd, neu gallant wneud cais uniongyrchol gan ddefnyddio 'Ffurflen Gais i Graffu' sydd ar gael ar wefan y Cyngor ar y dudalen hon: [https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/ynglyn-ar-cyngor/sut-maer-cyngor-yn-gweithio/pwyllgorau-craffu.aspx](https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/ynglyn-ar-cyngor/sut-maer-cyngor-yn-gweithio/pwyllgorau-craffu.aspx)

Defnyddir y meini prawf canlynol wrth ystyried a yw cais yn addas i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu:

- Lles y cyhoedd - a yw'r mater yn destun pryder i drigolion?
- Y gallu i gael effaith - a all Craffu ddylanwadu ar bethau a'u newid?
- Perfformiad - a yw hwn yn faes neu wasanaeth sy'n tangyflawni?
- Graddau - a oedd yn effeithio ar nifer fawr o breswylwyr neu ardal ddaearyddol fawr?
- Dyblygu - a oedd unrhyw un arall yn edrych arno?

I wella sut y tynnir sylw'r cyhoedd ynglŷn â'r pwyllgorau craffu ac i wella sut y gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno materion neu bryderon, bydd y Cyngor yn:

- Ceisio hyrwyddo cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu ar gyfryngau cymdeithasol corfforaethol cyn eu cynnal
- Ystyried creu 'ffurflen we' ddigidol o'r ffurflen gais i Graffu (sy'n ddogfen Microsoft Word ar hyn o bryd).

# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2025-2027 (drafft)

**Ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg aelodau'r prif Gyngor o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol ar gyfryngau cymdeithasol fel rhan o'u Proses Gyflwyno ar gyfer Aelodau.

Er mwyn gwella hyn, bydd y Cyngor yn:

- Ymgynghori â'r Cynghorwyr ar ôl pob etholiad Cyngor arferol i bennu eu lefel o ddealltwriaeth o ran y sianeli cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael iddynt, a sut y gall y rhain ategu at y sianeli y mae'r Cyngor yn eu defnyddio
- Trefnu hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol rheolaidd ar gyfer y Cynghorwyr:
    - O leiaf unwaith y flwyddyn
    - Ar ôl unrhyw etholiad anghyffredin neu is-etholiad
- Datblygu a chyhoeddi pecyn gwaith cyfryngau cymdeithasol i gefnogi swyddogion a Chynghorwyr.